# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

## Cofnodion (LC1(3)-03-10)

**Dyddiad: 28 Ionawr 2010**
**Amser: 1.00 - 2.33pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Rosemary Butler (Cadeirydd), Gorllewin Casnewydd
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Nick Ramsay, Mynwy

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Liz Wilkinson, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Bethan Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### Tystion

Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas AC
Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu
Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Chris Franks. Anfonodd Bethan Jenkins, a oedd i fod i ddirprwyo ar ran Chris Franks, ei hymddiheuriadau yn ogystal.

### Eitem 2: Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) - sesiwn dystiolaeth 4

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig, ynghyd â Dianne Bevan, y Prif Swyddog Gweithredu â Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol.

**Cam gweithredu**

Darparu nodyn ar wneud diwygiadau yn y dyfodol i Atodlen 1, er mwyn newid y bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd, er enghraifft.

### Eitem 3. Sesiwn Breifat

3.1 Cytunodd y pwyllgor ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 (vi) i wahardd y cyhoedd o'i drafodaethau, mewn unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol ynghylch argymhellion allweddol Adroddiad Cyfnod 1.